

Crynodeb gweithredol

1. Mae'r papur hwn yn cyflwyno, ar gyfer ymgynghoriad, gynigion y Llywodraeth i gyflwyno math o ddull diogelu costau mewn achosion difenwi a phreifatrwydd. Mae'n bodloni ymrwymiad y Llywodraeth i ymgynghori ar y cynigion a gyhoeddwyd wrth i Ddeddf Difenwi 2013 fynd drwy Dŷ'r Arglwyddi ar 23 Ebrill 2013.¹

Y Mater

2. Mae diogelu costau yn effeithio ar yr atebolrwydd sydd gan un parti mewn achos ymgyfreitha sifil mewn perthynas â chostau'r parti arall – mae'n cynnig gwarchodaeth yng nghyswllt y costau y byddai angen eu talu fel arall o bosibl. Mae'n bwysig cydnabod bod diogelu costau yn eithriad yng Nghymru a Lloegr. Nid yw ar gael yn y rhan fwyaf o achosion, pan fydd partiön sy'n colli, yn gyffredinol, yn atebol am gostau cyfreithiol yr ochr arall, yn ogystal â'u costau cyfreithiol eu hunain. Mae'r egwyddor hon – bod y sawl sy'n colli yn talu – yn elfen bwysig mewn achosion ymgyfreitha sifil yng Nghymru a Lloegr; mae'n helpu i atal achosion nad ydynt yn rhai teilwng.
3. Fodd bynnag, mae'r Llywodraeth wedi cydnabod ers tro y dylid gwarchod rhai ymgyfreithwyr yn gyffredinol rhag gorfod talu costau cyfreithiol yr ochr arall os nad yw eu hachos yn llwyddiannus: dyma'r ddarpariaeth gyffredinol mewn perthynas â chymorth cyfreithiol sifil, er enghraifft. Wrth fwrw ymlaen ag argymhellion yr Arglwydd Ustus Jackson ynghylch costau a chyllid mewn achosion ymgyfreitha sifil,² derbyniodd y Llywodraeth y dylai diogelu costau – ar ffurf symud costau unffordd amodol (QOCS) – gael ei gyflwyno ar gyfer hawliadau ynghylch anafiadau personol, ac mae hyn wedi digwydd er 1 Ebrill 2013. Mae'r Llywodraeth hefyd wedi derbyn argymhelliad yr Arglwydd Ustus Leveson³ y dylai'r dull hwn o ddiogelu costau – neu amrywiad o QOCS – gael ei ymestyn i gynnwys achosion yn ymwneud â difenwi a phreifatrwydd. Mae'r rhesymeg dros gyflwyno dull i ddiogelu costau yn yr achosion hyn yn bur syml: sicrhau bod y rheini nad ydynt mor gyfoethog yn gallu dwyn achos neu amddiffyn achos teilwng, ac nad ydynt yn cael eu hatal rhag dwyn honiad neu amddiffyn honiad priodol am eu bod yn ofni y bydd yn rhaid iddynt dalu costau cyfreithiol nad ydynt yn gallu eu fforddio i'r ochr arall os byddant yn colli.
4. Byddai'r cynigion yn ymestyn i gynnwys achosion difenwi a phreifatrwydd (fel y diffinnir ym mharagraff 21). Fodd bynnag, er mwyn cadw pethau'n syml, caiff yr holl achosion o fewn y diffiniad eu disgrifio fel 'achosion difenwi' yn y papur hwn.
5. Mae'r Llywodraeth yn cydnabod y gall y costau sy'n gysylltiedig â dwyn achos difenwi neu amddiffyn achos o'r fath fod yn sylweddol. Er y gallai costau cyfreithiol yr hawlydd fod yn ddibynnol ar gytundeb ffi amodol 'dim ennill dim ffi' (CFA) – fel nad yw hawlydd sy'n colli yn gorfod talu costau ei gyfreithiwr – serch hynny, fel rheol, byddai'n rhaid i hawlydd sy'n colli fod yn gyfrifol am gostau

¹ <http://www.publications.parliament.uk/pa/ld201213/ldhansrd/text/130423-0001.htm#13042379000274>

² Gweler Atodiad C.

³ Adroddiad yr Ymchwiliad, pennod 3, paragraff 6.10.

cyfreithiol y diffynnydd (ac fel arall). Heb rywfaint o warchodaeth, gall hawlwywr a diffynnyddion sy'n colli wynebu bil cyfreithiol sylweddol sydd y tu hwnt i gyrraedd y rhan fwyaf o bobl; efallai y bydd y rheini â chartref yn ofni y gallant golli'r cartref hwnnw wrth dalu costau cyfreithiol yr ochr arall. Mae gwarchodaeth wedi bodoli ar ffurf yswiriant 'ar ôl y digwyddiad' (ATE). Gall yswiriant ATE dalu costau cyfreithiol yr ochr arall os nad yw'r achos yn llwyddiannus, ond mae'r yswiriant hwn yn ddrud. Mae'r premiwm yn cael ei adennill gan y parti sy'n colli, ond fel arfer dim ond y diffynnyddion sydd wedi colli sy'n ei dalu. Yn ogystal â hyn, gall y premiwm fod yn swm sylweddol – bron mor uchel â'r swm sydd wedi'i yswirio. Mae'r Llywodraeth wedi deddfu yn Rhan 2 Deddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwy'r 2012 i ddiwygio cytundebau ffi amodol ac fel na fydd modd adennill premiwm yr yswiriant ATE oddi wrth y parti sy'n colli.⁴

6. Mae diwygiadau'r Ddeddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwy'r yn bwrw ymlaen ag argymhellion yr Arglwydd Ustus Jackson, a'u bwriad yw rheoli costau ymgyfreitha sifil. Mae'r diwygiadau'n rhoi sylw i'r modd y mae achosion yn cael eu hariannu a pha gostau sy'n gysylltiedig â dwyn yr achosion hyn a'u hamddiffyn. Mae'r diwygiadau'n berthnasol ar draws y maes ymgyfreitha sifil yng Nghymru a Lloegr, a daethant i rym yn gyffredinol ar 1 Ebrill 2013, gan gynnwys y rheol QOCS ar gyfer achosion anafiadau personol yn y Rheolau Trefniadaeth Sifil.⁵ Fodd bynnag, yng ngoleuni argymhelliad yr Arglwydd Ustus Leveson, gohiriodd y Llywodraeth y gwaith o weithredu'r diwygiadau hyn ar gyfer achosion difenwi am y tro⁶ nes bod system diogelu costau ar waith. Gofynnodd y Llywodraeth am gyngor gan y Cyngor Cyfiawnder Sifil ynghylch pa fath o system diogelu costau fyddai'n addas.
7. Yn y papur ymgynghori hwn, mae'r Llywodraeth yn nodi ei chynigion ar gyfer diogelu costau mewn achosion difenwi yng Nghymru a Lloegr, gan adeiladu ar y rheol QOCS ar gyfer achosion anafiadau personol. Mae'n gofyn am farn ynghylch y cynigion hyn – y polisi a'r rheolau drafft.
8. Bydd y Llywodraeth yn ystyried yr ymatebion cyn gofyn i'r Pwyllgor Rheolau Trefniadaeth Sifil gytuno ar y rheolau diwygiedig. Bydd darpariaethau perthnasol y Ddeddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwy'r yn cael ei rhoi ar waith ar gyfer achosion difenwi pan fydd y rheolau newydd ar gyfer diogelu costau yn dod i rym.
9. Bwriad y system arfaethedig ar gyfer diogelu costau mewn achosion difenwi, fel y nodir yn y papur hwn, yw sicrhau bod mynediad at gyfiawnder yn gymaint o realiti i ymgyfreithwyr tlotach ag yr ydyw i ymgyfreithwyr cyfoethog. Dylai partïon tlotach, p'un ai hawlwywr ynteu ddiffynnyddion ydynt, allu ymgyfreitha pan fo angen, heb ofni y bydd yn rhaid iddynt wynebu'r costau sylweddol y gorchmynnir iddynt eu talu o bosibl i'r ochr arall yn yr achosion hyn. Mae'r cynigion yn bwrw ymlaen ag argymhellion yr Arglwydd Ustus Jackson a'r Arglwydd Ustus Leveson.
10. Mae'n bwysig nodi bod diogelu un ochr rhag gorfod wynebu costau yn amddifadu'r ochr arall o gostau y byddai ganddi hawl iddynt fel arall, felly mae'n

⁴ Deddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwy'r 2012, adrannau 44 a 46.

⁵ Rheolau Trefniadaeth Sifil – Rhan 44.13–44.17

⁶ Yn ogystal ag achosion difenwi, mae'r gwaith o weithredu adrannau 44 a 46 o'r Ddeddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwy'r wedi'i ohirio y tu hwnt i 1 Ebrill 2013 ar gyfer achosion mesothelioma, ac achosion sy'n ymwneud ag ansolfedd ac sy'n gysylltiedig â hwy.

rhaid cael cydbwysedd gofalus. Mae'r cynigion felly yn ceisio cydbwysu buddiannau'r partïon: y rheini sydd heb lawer o fodd, y rheini sydd â rhywfaint o fodd, a'r rheini sydd â llawer o fodd; a'r hawlydd a'r diffynnydd. Y gobaith yw y bydd y cynigion hefyd o bosibl yn annog setlo achosion yn gynharach, ac ar y cyd â gweithredu diwygiadau yswiriant CFA ac ATE, dylent reoli'r costau mewn achosion difenwi.

Yr ymgynghoriad

11. Mae'r ymgynghoriad wedi'i anelu at bobl a sefydliadau sydd â diddordeb mewn achosion yn ymwneud â difenwi a phreifatrwydd yng Nghymru a Lloegr.
12. Amlinellir y cynigion yn yr adran nesaf, sy'n cynnwys crynodeb o'r darpariaethau ar y diwedd.
13. Mae copïau o'r papur ymgynghori yn cael eu hanfon at y bobl a'r sefydliadau a restrir yn **Atodiad A**. Nid yw'r rhestr yn un gyflawn a bydd ymatebion i'r papur hwn yn cael eu croesawu gan unrhyw un sydd â safbwyntiau am y pwnc neu ddiddordeb ynddo. Mae'r rheolau drafft yn **Atodiad B**. Mae **Atodiad C** yn rhoi rhywfaint o gefndir ynghylch ariannu hawliadau difenwi. Mae **Atodiad D** yn rhoi manylion y rheol QOCS ar gyfer hawliadau anafiadau personol.
14. Byddai'r Llywodraeth yn croesawu ymatebion i'r cwestiynau a gyflwynir yn y papur ymgynghori hwn. Mae 15 cwestiwn unigol yr ymgynghoriad yn cael eu nodi ym mhenodau perthnasol y papur ac yna'n cael eu hailadrodd yn yr adran 'Holiadur' tuag at y diwedd.
15. Y dyddiad cau ar gyfer derbyn ymatebion yw hanner nos ar 8 Tachwedd 2013. Ar ôl i'r ymgynghoriad ddod i ben, byddwn yn ystyried yr ymatebion y byddwn wedi'u derbyn. Rydym yn bwriadu cyhoeddi dogfen yn cynnwys yr ymatebion erbyn mis Ebrill 2014.

Holiadur

Byddem yn croesawu ymateb i'r cwestiynau canlynol a ofynnir yn y papur ymgynghori hwn.

- Cwestiwn 1:** Ydych chi'n cytuno â chwmpas y system diogelu? Os nad ydych chi, beth ddylai gael ei gynnwys?
- Cwestiwn 2:** Ydych chi'n cytuno â'r broses hon? Os nad ydych chi, sut y gellid ei gwella?
- Cwestiwn 3:** Ydych chi'n cytuno â'r dull ar gyfer caniatáu diogelu costau llawn ar gyfer y rheini sydd heb lawer o fodd, diogelu rhannol (wedi'i gapio) ar gyfer y rheini sydd yn y grŵp 'canolig', a dim diogelu costau ar gyfer y rheini sydd â llawer o fodd? Os nad ydych chi, pa system arall y dylid ei mabwysiadu?
- Cwestiwn 4:** A ddylid cael unrhyw esboniad pellach ynghylch lefel modd pob grŵp? Os felly, pa lefelau modd fyddai'n briodol?
- Cwestiwn 5:** Ydych chi'n cytuno mai'r prawf ar gyfer 'caledi ariannol difrifol' yw'r prawf cywir i eithrio'r rheini sy'n gyfoethog iawn – boed yn unigolion neu'n gyrff (gan gynnwys, er enghraifft, papurau newydd cenedlaethol sy'n dweud eu bod wedi gwneud colled)? Os nad ydych chi, pa brawf fyddai'n briodol?
- Cwestiwn 6:** Ydych chi'n cytuno y dylai parti yn y grŵp 'canolig' dalu 'swm rhesymol'? Os nad ydych chi, pa brawf fyddai'n briodol?
- Cwestiwn 7:** Pa ffactorau y dylid eu hystyried wrth benderfynu beth sy'n 'swm rhesymol' i barti yn y grŵp 'canolig' fod yn atebol amdano?
- Cwestiwn 8:** Pa dystiolaeth sydd gennych ynghylch y costau cyfreithiol ar gyfer hawlwy'r a diffnyddion mewn achosion difenwi? Hoffem yn arbennig gael gwybodaeth am lefel gyfartalog y costau ar gyfer pob parti a sut mae hyn yn amrywio o un achos i'r llall.
- Cwestiwn 9:** Pa dystiolaeth sydd gennych ynghylch modd ariannol hawlwy'r a diffnyddion mewn achosion difenwi?
- Cwestiwn 10:** Pa effaith ydych chi'n meddwl y bydd y cynigion yn ei chael ar fusnesau? Hoffem yn arbennig ddeall yr effaith y gallai'r cynigion ei chael ar fusnesau bach a chanolig a microfusnesau, fel hawlwy'r ac fel diffnyddion.
- Cwestiwn 11:** Ydych chi'n cytuno â'r darpariaethau ychwanegol a gynigir? Os nad ydych chi, sut y gellid eu gwella?
- Cwestiwn 12:** A ddylid cael unrhyw ddarpariaeth benodol yn y rheolau yn ymwneud â pha barti ddylai dalu costau cais am ddiogelu costau? Os felly, beth ddylai'r ddarpariaeth fod?

Cwestiwn 13: A ddylai'r Protocol Cyn Achos ar gyfer Difenwi gael ei addasu i ystyried y darpariaethau newydd hyn? Os felly, sut?

Cwestiwn 14: Oes gennych chi unrhyw sylwadau ynghylch sut y gellid gwella'r gwaith o ddrafftio'r rheolau hyn?

Cwestiwn 15: O'ch profiad chi, a oes yna unrhyw grwpiau o unigolion gyda nodweddion gwarchoddedig y gallai'r cynigion yn y papur ymgynghori hwn effeithio arnynt yn fwy na neb arall, boed hynny mewn ffordd gadarnhaol neu negyddol?

Diolch i chi am gymryd rhan yn yr ymarfer ymgynghori hwn.